**Adroddiad Sam Rowlands AS ar ôl y Brecwast Gweddi Nordig-Baltig**

Cefais wahoddiad i fynychu'r gyfres o ddigwyddiadau Brecwast Gweddi Nordig-Baltig ar 4 Tachwedd 2022 yn Riga. Roedd hyn gyda grŵp o gynrychiolwyr trawsbleidiol o wleidyddion o bob rhan o Ewrop. Fel yr amlinellwyd yn y gwahoddiad, pwrpas y digwyddiadau oedd cyfarfod ag arweinwyr gwleidyddol, yn arbennig o'r gwledydd Nordig-Baltig gyda risgiau geo-wleidyddol y rhanbarth mewn golwg, i *"... gryfhau ein hymrwymiad cyffredin i fod yn heddychwyr a heddgeidwaid yn Ewrop a thu hwnt".* Gwnaed hyn trwy gyfres o gyflwyniadau, trafodaethau wedi'u trefnu ac mewn cyfarfodydd anffurfiol rhyngweithiol.

Yn y cyfarfod brecwast ar y 4ydd, treuliais amser gydag ASau o Latfia fel Janis Grasberg, Richard Slesers, Ramona Petravica, ac Ainars Slesers a amlinellodd yr heriau y mae Latfia yn eu hwynebu fel gwlad sy'n ffinio â Rwsia a'i hagosrwydd cymharol at Wcráin, yn enwedig ar adeg ryfelgar. Roedd yn ddefnyddiol clywed ganddynt am arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y rhanbarth yn y cyd-destun presennol a sut mae effaith y rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar ddinasyddion yn y rhanbarth Nordig-Baltig.

Yn naturiol, roedd y sgyrsiau hyn yn arwain yn aml at rôl Cymru o ran cefnogi'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin a'r gefnogaeth mae Llywodraethau yn gallu ei chynnig i'r unigolion hynny sy'n ceisio lloches. Fel aelod o'r Senedd, roeddwn i'n gallu rhoi sicrwydd o'r gefnogaeth y mae llawer o gymunedau yn fy rhanbarth i yn y Gogledd yn ei deimlo tuag at bobl y rhanbarth.



*Sam Rowlands AS gyda Seneddwyr Nordig-Baltig a chydweithwyr o'r Senedd.*

Prif siaradwr y digwyddiad oedd Antero Laukkanen, aelod o Senedd y Ffindir. Rhannodd Mr Laukkanen ei brofiad fel offeiriad ac yna fel gwleidydd yn Senedd y Ffindir gyda'i ddiddordeb arbennig mewn cyfiawnder cymdeithasol. Roedd yn fy nharo i fod yna lawer y gallwn ni yng Nghymru ei ddysgu gan gydweithwyr seneddol yn y rhanbarth Nordig mewn perthynas â chyfiawnder cymdeithasol ac yn benodol y ffocws ar deulu, y strwythurau sy'n clymu cymdeithas at ei gilydd a'r cryfder ehangach y mae hyn yn ei ddarparu i'n gwlad.

Yn ystod y digwyddiadau, cafwyd cyflwyniadau gan ffoaduriaid o Wcráin oedd yn gallu rhannu eu straeon am ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Roedd y rhain yn emosiynol iawn ac yn amlinellu rhai o'r erchyllterau y mae pobl gyffredin yn y wlad wedi'u dioddef ac yn dal i'w dioddef o ganlyniad i ymosodiad Rwsia. Cefais dreulio rhywfaint o amser gyda'r ffoaduriaid hyn i rannu cryfder y teimladau sydd gan lawer o'm trigolion yn y Gogledd ynghylch eu cefnogi yn eu hymdrechion.

Y cyflwyniad olaf yn ystod y digwyddiad y bues iddo oedd araith ar 'ffydd yn y sgwâr cyhoeddus' gan y Dywysoges Maragaretha o Liechtenstein. Amlinellodd y Dywysoges ei thaith i ffydd a sut mae hynny'n cael ei fynegi wedyn yn ei rôl gyhoeddus. Yng Nghymru, mae gennym ni dreftadaeth falch o ffydd, a rhyddid i fynegi ein credoau; ail-gadarnhaodd yr araith gan y Dywysoges i mi bwysigrwydd cynnal a hyrwyddo'r agwedd gynhwysol sydd gennym yn ein gwlad.